## CAETHWASIAETH

Gan mai cymryd enwau eu perchnogion a wnâi caethweision, mae'r amcangyfrif fod gan 15% o ddinasyddion croenddu Unol Daleithiau America enwau Cymreig yn awgrymu mai Cymry oedd llawer o berchnogion eu hynafiaid. Elwodd nifer o deuluoedd bonedd ar gaethwasiaeth; er enghraifft, gwnaeth teulu **Pennant**, Castell Penrhyn, ger Bangor, ffortiwn o blanhigfeydd siwgr yn Jamaica lle llafuriai caethweision. Er syndod, daeth llawer o Ymneilltuwyr a oedd wedi ffoi rhag erledigaeth grefyddol yng Nghymru yn gaethfeistri brwd yn America. Roedd y drefn o ddosbarthu tir i ymfudwyr yn ôl maint y teulu (gan gyfrif caethweision) yn hybu caethwasiaeth.

Gyda phorthladdoedd Lerpwl a Bryste mor agos i Gymru, elwodd amryw o Gymry yn uniongyrchol ar y fasnach gaethweision. Er enghraifft, aeth Philip Protheroe (1781-1846) o Sir Benfro yn fasnachwr caethweision llwyddiannus ym Mryste, gan ddringo i fod yn faer y ddinas yn 1810.

Ym Mryste hefyd y daeth Morgan John Rhys (1760-1804) gweinidog gyda'r Bedyddwyr, o dan ddylanwad y mudiad yn erbyn caethwasiaeth. Cyhoeddodd gyfieithiad Cymraeg o un o'u pamffledi, gan roi cyhoeddusrwydd pellach i'r pwnc yn *Y Cylch-grawn Cynmraeg*. Wedi ymfudo i America yn 1794, cyhoeddodd Rhys gyfres o ysgrifau yn yr *American Universal Magazine* yn ymosod ar bamffledyn John Lawrence, *Negro Slavery Defended by the Word of God*. Ymddangosodd yr ysgrifau ar ffurf pamffledyn yn dwyn y teitl *Letters on Liberty and Slavery* yn 1798 gan ddylanwadu ar yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth. Ymhlith Cymry eraill a oedd yn dadlau dros ddiddymu ceid Iolo Morganwg (Edward Williams), **Samuel Roberts** a **Jessie Donaldson**.

Rhoddodd *Uncle Tom's Cabin* (1852) bropaganda effeithiol yn nwylo'r bobl oedd yn cefnogi rhyddid i bawb. (Roedd awdur y nofel, Harriet Beecher Stowe, yn ddisgynnydd i ymfudwyr o Landdewibrefi.) O fewn blwyddyn, roedd tri fersiwn Cymraeg o *Caban F'ewythr Twm* yn bodoli – gwaith Hugh Williams (Cadfan, 1807?-70), William Williams (y Lefiad, *fl.* 1853) a Gwilym Hiraethog (William Rees, 1802-83). Cyhoeddodd Robert Everett (1791-1875) fersiwn Cymraeg i Gymry America yn 1854.

Yn Rhyfel Cartref America (1861-5), a oedd yn ei hanfod yn wrthdaro rhwng taleithiau'r gogledd, a wrthwynebai gaethwasiaeth, a thaleithiau'r de, lle'r oedd caethwasiaeth yn ffynnu, roedd y Cymry ar y cyfan yn cefnogi'r Gogledd, er bod Jefferson Davis, arlywydd y Taleithiau Cydffederal, o dras Gymreig.

Diddymwyd y fasnach caethweision yn 1807 a newidiodd agwedd y perchnogion tuag at y caethweision yn ei sgil. Gan nad oedd mwy o gaethweision ar gael yn sgil y ddeddf, roedd rhaid i berchnogion y planhigfeydd ofalu am y rhai oedd ar ôl ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd gorchymyn nad oedd merched beichiog i fod i weithio yn y caeau a bod plant yn cael un pryd da o fwyd bob dydd. Fodd bynnag, rhesymau economaidd oedd y tu ôl i'r newidiadau hyn yn hytrach na rhai dynol.

Diddymwyd caethwasiaeth yn y trefedigaethau Prydeinig yn swyddogol am hanner nos 31 Gorffennaf 1838, a hwnnw yw'r dyddiad yr oedd y caethweision yn ei ddathlu.

**JESSIE DONALDSON (1799-1889)**
*Ymgyrchydd dros ddiddymu caethwasiaeth*




Ganed Jessie Donaldson (*née* Heineken) yn Abertawe a sefydlodd ysgol yn ei thref enedigol; bu'n dysgu yno am gyfnod. Ymunodd â Chymdeithas Gwrth-Gaethwasiaeth Abertawe. Pan oedd hi'n 41, syrthiodd mewn cariad a phriododd â Frances Donaldson, ei chefnder o Cincinnati a oedd yn ymweld ag Abertawe. Pan oedd Jessie yn 57, mudodd gyda Frances yn ôl i Cincinnati ar lan afon Ohio. Mudodd mam Frances, Anna Margareta, i Cincinnati yn 1822 a chadwai dŷ diogel o'r enw Frandon yno i gaethweision ar ffo. Adeiladodd Thomas Donaldson, brawd Frances, dŷ ar lannau'r afon o'r enw Penmaen (sef enw'r fferm deuluol gartref yn Rhaeadr Gwy) a oedd hefyd yn dŷ diogel. Tŷ Jessie a Frances, sef Clermont, oedd y trydydd tŷ diogel Cymreig i gaethweision a fyddai'n ffoi ar draws afon Ohio o blanhigfeydd Kentucky. Yn ystod Rhyfel Cartref America (1861-1865) gweithiodd Jessie gyda'r ymgyrchwyr Affricanaidd-Americanaidd dros ddiddymu **caethwasiaeth**, Frederick Douglass, Ellen a William Craft, a Harriet Beecher Stowe, awdur *Uncle Tom's Cabin*. Dychwelodd Jessie a Frances i Abertawe ar ddiwedd y rhyfel cartref, a bu farw Jessie yn 90 oed yn 1889.

**PENNANT, Teulu** *Tirfeddianwyr a diwydianwyr*
Dyma un o'r teuluoedd mwyaf pwerus yng Nghymru'r 19g., a'r grym amlycaf yn natblygiad y diwydiant llechi.

Hannai'r teulu o Sir y Fflint. Rhoddwyd dau grant gan y Goron o 360 a 250 erw yn Jamaica i Gifford Pennant yn 1670 ac erbyn ei farwolaeth yn 1677 roedd y teulu'n berchen ar 7,000 erw o dir. John Pennant oedd yr olaf o'r teulu i fyw yn Jamaica a chyflogwyd asiantau i redeg y planhigfeydd ar ran y teulu ar ôl hynny. Roedd Richard Pennant (1737?-1808) yn farsiandïwr a chanddo fuddiannau yn Jamaica – roedd ganddo chwe phlanhigfa siwgr yno ac roedd yn berchen ar 600 o gaethweision. Roedd hefyd yn Aelod Seneddol dros Lerpwl, lle roedd prif borthladd allforio caethweision y byd. Roedd yn ffigur allweddol yn yr ymgyrch i wrthwynebu diddymiad caethwasiaeth. Daeth yn berchen ar stadau'r Penrhyn trwy briodas yn 1765 ac aeth ati i gloddio'r llechfeini ar ei dir, gan greu chwarel y Penrhyn, a gerllaw iddi sefydlwyd tref Bethesda.

Er bod caethwasiaeth wedi cael ei ddiddymu yn 1807, nid dyna ddiwedd caethwasiaeth, ond yn hytrach ddiwedd ar y fasnach i lefydd fel Jamaica. Bu'n rhaid i'r rhai a oedd ar yr ynys yn barod barhau i fod yn gaethweision hyd at 1838. Erbyn 1822, roedd gan aelod arall o deulu Pennant, George Dawkins-Pennant, dros fil o gaethweision mewn pedair stad. Oherwydd bod gan deulu Pennant gysylltiadau â gogledd Cymru, byddent yn rhoi enwau fel *Denbigh* ar eu planhigfeydd yn Jamaica. Nid oedd y teulu'n wahanol iawn i deuluoedd eraill y cyfnod – y ddadl oedd bod angen caethweision i redeg y planhigfeydd. Roeddent yn gweld y caethweision fel anifeiliaid – pe baent yn cael eu cam-drin, ni fyddent yn gallu gweithio cystal.

Daeth caethwasiaeth i ben mewn dwy ffordd. Yn dilyn deddf 1833, gwnaed y caethweision yn brentisiaid di-dâl am gyfnod o chwe blynedd. Sicrhawyd felly fod digon o lafur ar gyfer rhedeg y planhigfeydd wrth i gaethwasiaeth ddod i ben. Yn ogystal, talodd y Goron iawndal o £20 miliwn i'r perchnogion. Derbyniodd George Hay Dawkins-Pennant dros £14,000 mewn iawndal am ei 764 caethwas.

**ROBERTS, Samuel (S.R., 1800-85)** *Awdur*
Ganed S.R., fe y'i gelwid, yn Llanbrynmair, a chafodd ddylanwad mawr ar Anghydffurfwyr Cymru trwy gyfrwng ei gylchgrawn, *Y Cronicl,* a gychwynnodd yn 1843. Gwrthwynebai **gaethwasiaeth**, imperialaeth Seisnig, Rhyfel y Crimea, landlordiaeth, undebaeth, y gosb eithaf ac ymyrraeth y wladwriaeth mewn addysg; cefnogai ddirwest, y post ceiniog, adeiladu rheilffyrdd a phleidlais i bawb, gan gynnwys menywod. Yn 1830 cyhoeddodd gyfrol fechan o gerddi, yn cynnwys 'Cwynion Yamba' – cerdd yn dinoethi caethwasiaeth, a pharhaodd ar hyd ei oes i weithio dros ryddhau'r caethion. Roedd yn Annibynnwr i'r carn, a dadleuai dros ryddid cynulleidfaoedd oddi wrth awdurdod canolog. Protestiodd yn groch yn erbyn adroddiad addysg 1847. Yn 1857, mewn ymgais ffôl rhag gelyniaeth stad Williams Wynn, y perthynai ei fferm iddi, ymfudodd i'r Unol Daleithiau, lle prynodd dir yn Tennessee. Methodd y fenter, a phan ddaeth Rhyfel Cartref America, fe'i gorfodwyd i ddychwelyd i Gymru yn 1867. Ei gyhoeddiadau pwysicaf yw *Diosg Farm* (1854), *Crynodeb o Helyntion ei Fywyd* (1875) a *Farmer Careful* (1881).

*Ffynonellau*

Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig, Gwasg Prifysgol Cymru, 2008

http://www.bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/hanes/pages/caethwasiaeth_prifysgol.shtml
[Cyrchwyd 22.i.14]

Llun - © Jazz Heritage Wales/Hilary Edmiston